CYNGOR **GWYNEDD** COUNCIL





# Esbonio'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd

Cynhyrchwyd ar gyfer tîm Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd gan Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gorffennaf 2014

## Cynhyrchwyd gan:

Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,
Bodlondeb,
Conwy, LL32 8DU.
E-bost: research.unit@conwy.gov.uk

Ffôn: 01492 575291

# Esbonio’r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd

## Cynnwys

**Penawdau** **2**

**Cyflwyniad** **4**

**Nodweddion allweddol cyfredol poblogaeth Gwynedd** **5**
Oed y boblogaeth a newid naturiol 5
Mudo 5

**Yr hyn y mae’r rhagamcanion yn ei ddangos** **7**

**Esbonio’r gwahaniaeth** **9**
Ailseilio’r amcangyfrifon poblogaeth 9
Newidiadau mudo 10
Maint aelwydydd 12
Beth achosodd y newid sylfaenol mewn tueddiadau maint aelwydydd? 13

**Cymysgedd tai – tueddiadau’r dyfodol** **14**

## Penawdau

- Mae'r papur hwn wedi'i ysgrifennu i esbonio a dadansoddi canlyniadau rhagamcanion poblogaeth yn seiliedig ar 2011 ac yn benodol rhagamcanion aelwydydd, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.
- Nodweddion allweddol cyfredol poblogaeth Gwynedd:
  - Mae’r canolrif oed yn uwch na’r cyfartaledd, ac mae’r boblogaeth yn heneiddio
  - Ceir mwy o farwolaethau na genedigaethau – nid yw poblogaeth Gwynedd yn disodli ei hun yn naturiol
  - Mae cynnydd poblogaeth net yn dod o fudo, sy’n amrywio
  - Mae mudo’n digwydd yn bennaf yn y grwpiau oed 15-29; presenoldeb y brifysgol ym Mangor yw'r hyn sy'n dylanwadu fwyaf ar fudo i mewn i Wynedd ac allan o Wynedd.
  - Fel cyfartaledd deg mlynedd, ceir cynnydd net o tua 330 o bobl yn sgil mudo yn y grŵp oed 15-29, ac yn y grŵp oed cyn-ymddeol 50-64.
- Mae’r rhagamcanion newydd yn dangos
  - Y disgwylir i dwf yn y boblogaeth barhau ar gyflymder cyson drwy gydol cyfnod y rhagamcanion ar gyfer pob senario, ond mae cyfradd y twf ar gyfer y rhagamcanion yn seiliedig ar 2011 yn uwch nag ar gyfer y rhagamcanion yn seiliedig ar 2008 - y rhagamcan tuedd mudo deg mlynedd sydd â'r gyfradd twf uchaf.
  - Rhagfynegwyd twf o 10.4% ar gyfer aelwydydd yn 2008 am y cyfnod 2011 i 2026, ond mae'r rhagamcanion newydd yn seiliedig ar 2011 yn awgrymu twf o 8.2% yn unig ar gyfer y prif ragamcan (tuedd mudo pum mlynedd) a thwf o ddim ond 9.4% ar gyfer yr amrywiolyn tuedd mudo deg mlynedd.
  - Bod y gofyn mynegol am anheddau ar gyfer y cyfnod 15 mlynedd yn disgyn yn sylweddol o gyfanswm o 6,380 a ragfynegwyd yn y rhagamcanion yn seiliedig ar 2008 i naill ai 5,000 (tuedd mudo pum mlynedd) neu 5,730 (tuedd mudo deg mlynedd).
- Mae’r gwahaniaethau rhwng rhagamcanion yn seiliedig ar 2008 a 2011 yn sgil:
  - ailgalibro’r holl ddata wedi i ganlyniadau Cyfrifiad 2011 gael eu cyhoeddi
  - newidiadau i’r duedd mudo a ddefnyddiwyd – fodd bynnag, er bod y gwahaniaethau mewn lefelau mudo yn allweddol wrth esbonio’r *rhagamcanion poblogaeth* uwch, maent yn cael llai o effaith wrth esbonio’r gwahaniaethau rhwng *rhagamcanion aelwydydd* hen a newydd Llywodraeth Cymru nag mewn ardaloedd awdurdodau unedol eraill.
  - y gwahaniaeth rhwng maint aelwydydd a ragfynegwyd a’r hyn a welwyd yn 2011 – roedd maint cyfartalog aelwydydd yn fwy na’r disgwyl, felly roedd llai o aelwydydd yn ffurfio nag a ragfynegwyd yn sgil tueddiadau’r gorffennol.
- Roedd maint cyfartalog aelwydydd yn fwy na’r disgwyl oherwydd
  - bod llai o bobl ifainc nag a ragfynegwyd yn gadael cartref y teulu ac yn ffurfio’u haelwydydd eu hunain, o bosib oherwydd costau tai

  - bod llai o bobl nag a ragfynegwyd yn byw ar eu pennau eu hunain neu mewn aelwydydd bach yn sgil teuluoedd yn gwahanu
  - bod cyfraddau marwolaeth dynion wedi gostwng, sy’n golygu llai o aelwydydd o fenywod hŷn sengl yn byw ar eu pennau eu hunain nag a ragfynegwyd
  - bod mwy o aelwydydd ble mae plant sy’n oedolion yn byw gyda’u rhieni
  - bod mwy o aelwydydd o oedolion nad ydynt yn perthyn sy’n rhannu costau byw
- Fodd bynnag, yn gyffredinol mae’r duedd yn parhau tuag at fwy o aelwydydd llai a llai o aelwydydd mawr yn y dyfodol, ond mae’r twf ar raddfa arafach nag a ragfynegwyd yn y gorffennol.

# Cyflwyniad

Mae'r papur hwn wedi'i ysgrifennu i esbonio a dadansoddi canlyniadau rhagamcanion poblogaeth yn seiliedig ar 2011 ac yn benodol rhagamcanion aelwydydd, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Fe'i cynhyrchwyd ym mis Gorffennaf 2014 gan Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dan gomisiwn gan dîm Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Ardaloedd Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn a Gwynedd.

Cyhoeddwyd ffigyrau poblogaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2011 ym mis Gorffennaf 2013 a chyhoeddwyd y rhagamcanion aelwydydd ym mis Chwefror 2014. Mae’r ffigyrau yn wahanol iawn i’r rhagamcanion yn seiliedig ar 2006 a 2008 a gyhoeddwyd yn 2008 a 2010 yn y drefn honno. Mae’r rhagamcanion aelwydydd yn rhoi ffigyrau ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol – yn cynnwys Gwynedd – sy’n is na’r hyn a gyflwynwyd yn rhagamcanion aelwydydd yn seiliedig ar 2008, ac mae hyn wedi peri peth pryder. Fodd bynnag, er bod y gwahaniaeth yng nghyfanswm nifer yr aelwydydd ar ddechrau’r cyfnod yn ddefnyddiol i’w wybod gan ei fod yn rhoi man cychwyn i ni ar gyfer nifer o gyfrifiadau (megis cyfradd digartrefedd i bob 1,000 o aelwydydd neu amcangyfrifon o faint cyfartalog aelwydydd), yr hyn sydd o ddiddordeb mewn gwirionedd ar gyfer cynllunio defnydd tir yw’r newid mewn niferoedd a mathau o aelwydydd dros amser, ac mae’r papur byr hwn yn canolbwyntio mwy ar esbonio pam fod y gyfradd newid mor wahanol i’r un yn y rhagamcanion aelwydydd a gynhyrchwyd yn y gorffennol.

Mae’r papur hwn hefyd yn rhoi cyd-destun y tueddiadau a welir yn y rhagamcanion. Dylanwadir ar yr holl ragamcanion poblogaeth ac aelwydydd gan nodweddion lleol y boblogaeth, ac mae’n bwysig cael dealltwriaeth o’r nodweddion hyn a sut maent yn debygol o gael effaith ar dueddiadau poblogaeth y dyfodol cyn beirniadu’r rhagamcanion eu hunain.

Mae'r papur yn ymdrin â holl ardal awdurdod unedol Gwynedd, yn cynnwys y rhan sy’n cael ei gweinyddu gan awdurdod cynllunio lleol Parc Cenedlaethol Eryri.

**Noder:** Yn ei rhagamcanion yn seiliedig ar 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu rhagamcan amrywiolyn mudo am y tro cyntaf sy’n dangos tuedd mudo deg mlynedd. Mae hwn yn rhagamcaniad cryfach i’w ddefnyddio ar gyfer cynllunio defnydd tir, gan ei fod yn defnyddio tuedd mudo mwy sefydlog tymor-hwy ac mae’n fwy addas i’r cyfnodau amser yr ymdrinnir â hwy gan gynlluniau datblygu lleol.

Er mai'r isod oedd y prif ragamcan (tuedd mudo pum mlynedd) yn draddodiadol

> Rhagamcanion Aelwydydd Cymru ar lefel awdurdod lleol diweddaraf Llywodraeth y Cynulliad a ddylai fod yn fan cychwyn ar gyfer asesu gofynion tai[1]

mae Gweinidog Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru wedi nodi[2]

> nad yw’n ddoeth i Gynllun, sy’n edrych ymlaen 15-20 mlynedd, ailadrodd cyfnod o dwf eithriadol o wael.

Felly rhoddir mwy o bwys ar y rhagamcaniad amrywiolyn tuedd deg mlynedd wrth ystyried twf tai mewn cynlluniau datblygu lleol dros y blynyddoedd nesaf nag a roddir ar y prif ragamcaniad. Am y rheswm hwn, cyflwynir y prif ragamcaniad yn seiliedig ar 2011 a’r

[1] Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 4 - Chwefror 2011 - Pennod 9, Tai

[2] Llythyr gan y Gweinidog Tai, Llywodraeth Cymru i holl aelodau Cabinet Awdurdodau Lleol gyda Chyfrifoldeb am Dai, 10 Ebrill 2014 – testun ‘Defnydd o ragamcanion aelwydydd 2011’ (Cyf: SF/CS/1070/14)

amrywiolyn mudo tuedd deg mlynedd yn y papur hwn, ynghyd â chymhariaeth yn erbyn rhagamcanion yn seiliedig ar 2008 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2010 ond sydd bellach wedi'u disodli. (gweler yr adran 'Esbonio'r gwahaniaeth – newidiadau mudo' isod am fwy o fanylion).

## Nodweddion allweddol cyfredol poblogaeth Gwynedd

Mae adran hon yr adroddiad yn cyflwyno data allweddol ynghylch poblogaeth Gwynedd, ac yn esbonio sut fydd y nodweddion poblogaeth hyn yn effeithio ar amcangyfrifon a rhagamcanion poblogaeth mewn modd cyffredinol.

### Oed y boblogaeth a newid naturiol

**Mae'r canolrif oed yn uwch na'r cyfartaledd, ac mae'r boblogaeth yn heneiddio** – Canolrif oed (yr oed ble mae hanner y boblogaeth yn hŷn a hanner yn iau) poblogaeth Gwynedd yw 42 mlynedd. Canolrif oed cyfredol Cymru yw 41 a 38 i'r DG. Golyga hyn bod y boblogaeth yn sylweddol hŷn nag ar gyfer y DG ac ychydig yn hŷn nag ar gyfer Cymru, ar gyfartaledd. Mae'r canolrif oed wedi cynyddu o 40 i 42 mlynedd dros y degawd diwethaf. Mae hyn hyd yn oed ar ôl ystyried poblogaeth myfyrwyr helaeth yn ardal Bangor, sy'n awgrymu y byddai canolrif oed y boblogaeth breswyl heb gynnwys myfyrwyr hyd yn oed yn uwch.

**Mwy o farwolaethau na genedigaethau** – nid yw poblogaeth Gwynedd yn disodli ei hun yn naturiol, ac fel yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, mae mwy o farwolaethau na genedigaethau. Gyda marwolaethau dros gyfnod o ddeg mlynedd ar gyfartaledd o 1,320 y flwyddyn a genedigaethau ar 1,270 yn unig, byddai poblogaeth Gwynedd yn gostwng tua 50 o bobl y flwyddyn pe na byddai unrhyw fudo i mewn net i'r ardal.

### Mudo

**Tabl 1: cyfran mudo yn ôl grŵp oed, Gwynedd, (cyfartaledd 2003/04 i 2012/13)**

Ffynonellau: data llif mudo mewnol a rhyngwladol, ONS

| | Mudo i mewn | Mudo allan |
|---|---|---|
| **Cyfanswm mudwyr** | 6,300 | 5,950 |
| **0 – 14 oed** | 8% | 9% |
| **15 – 29 oed** | 59% | 56% |
| **30 – 49 oed** | 19% | 20% |
| **50 – 64 oed** | 9% | 8% |
| **65 oed a hŷn** | 5% | 6% |
| **75+ oed** | 2% | 3% |


**Mae cynnydd poblogaeth net yn dod o fudo, sy'n amrywio** – mae twf cyffredinol mewn poblogaeth yn dod o gynnydd net o bobl yn symud i mewn i'r ardal - p'un a ydynt yn fudwyr newydd neu'n gyn-drigolion sy'n dychwelyd (er enghraifft myfyrwyr oedd yn astudio y tu allan i Gymru) a ph'un a ydynt o Landudno neu Lerpwl neu Ffrainc. Fodd bynnag, er bod nifer y genedigaethau a marwolaethau yn parhau'n gymharol sefydlog flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae mudo yn gydran llawer mwy cyfnewidiol o newid poblogaeth, sy'n anodd ei mesur a hyd yn oed anos ei

rhagfynegi. Mae unrhyw flwyddyn sydd â ffigwr mudo net o lai na thua 50 yn debygol o weld gostyngiad yng nghyfanswm niferoedd poblogaeth.

**Mae mudo’n digwydd yn bennaf yn y grwpiau oed 15-29** – presenoldeb y brifysgol ym Mangor yw’r hyn sy’n dylanwadu fwyaf ar fudo i mewn i Wynedd ac allan o Wynedd.[3] Mae’r grŵp oed 15-29 wedi dod yn fwyfwy symudol yn ddiweddar felly mae maint ac effaith eu patrymau mudo wedi tyfu. Fel cyfartaledd deg mlynedd, mae’r grŵp oed hwn yn cyfrif am 59% o bobl sy’n mudo i mewn a 56% o bobl sy’n mudo allan.

## Siart 1: cyfartaledd proffil oed mudwyr yng Ngwynedd, 2003/04 i 2012/13

Ffynonellau: data llif mudo mewnol a rhyngwladol, ONS




Ceir lefelau uchel iawn o fudo i mewn yn y grwpiau oed 15-19 a 20-24, gyda mudo i mewn is, ond sylweddol er hynny, yn y grŵp oed 25-29. Mae hyn yn cynnwys y grwpiau oed arferol ar gyfer astudio ar lefel is-raddedig ac ôl-raddedig ac mae’r

[3] O’r data sydd ar gael, nid yw’n bosib adnabod yn llwyr effaith mudo a arweinir gan fyfyrwyr yng Ngwynedd. Fodd bynnag, pe byddai’r brifysgol yn peidio â bod, ac felly byddai’r mudo cysylltiedig yn dod i ben, mae’n debygol y byddai patrymau mudo yn debyg i’r rheini a welir yn awdurdodau unedol cyfagos Bwrdeistref Sirol Conwy ac Ynys Môn. Byddai pobl ifainc yn symud o’r ardal ar gyfer addysg uwch ac er mwyn manteisio ar gyfleoedd economaidd a chymdeithasol eraill, ac ni fyddai llawer ohonynt yn dychwelyd i'r ardal wedi cwblhau eu cyrsiau gradd. Byddai mudo i mewn i’r ardal yn cael ei yrru'n bennaf gan y grwpiau oed hŷn a fyddai’n ymddeol i’r ardal. Pe na byddai graddfa'r mudo hwn i mewn sy’n gysylltiedig ag ymddeol yn cydbwyso yn erbyn oedolion ifainc yn mudo allan o’r ardal, byddai cyfanswm poblogaeth yr ardal yn dechrau disgyn. Dros amser, byddai proffil oed Gwynedd yn sgiwio tuag at yr grwpiau oed hŷn. Yn ogystal, byddai nifer y genedigaethau yn debygol o ddisgyn yn sylweddol, gan y byddai llawer yn llai o ferched o oed cael plant yn y boblogaeth, a fyddai yn ei dro yn golygu y byddai llai o blant.

Byddai colli’r boblogaeth brifysgol/myfyrwyr yn cael effaith ar yr economi lleol, yn nhermau eu heffaith fel cwsmeriaid ond hefyd yn nhermau’r gwasanaethau a’r busnesau sy’n eu cefnogi neu a ddenir i’r ardal oherwydd presenoldeb sefydliad addysg uwch. Felly, byddai patrymau mudo’r rheini rhwng 30 a 49 oed hefyd yn debygol o gael eu heffeithio (llai o fudo i mewn, mwy o fudo allan) gan y byddai nifer ac ansawdd y swyddi sgil uchel â chyflogau gwell yn yr ardal yn debygol o ostwng.

mudwyr yn y grwpiau oed hyn yn fyfyrwyr yn bennaf. Byddai peth o'r mudo i mewn yn y grwpiau oed 20-29 hefyd yn oedolion ifainc yn dychwelyd i Wynedd ar ôl gorffen eu hastudiaethau rhywle arall.

Ar y llaw arall, ceir anterth mawr yn y mudo allan yn y grŵp oed 20-24, a fyddai’n bennaf yn fyfyrwyr yn gadael yr ardal, ac eto ceir lefel is, ond sylweddol er hynny, o fudo allan yn y grŵp oed 25-29, sy’n cyfateb i oed arferol gorffen astudiaethau addysg uwch. Ceir hefyd twf mewn mudo allan ymhlith pobl ifainc 15-19 oed, sy’n debygol o fod yn bennaf oherwydd bod trigolion ifainc yn eu harddegau yn gadael yr ardal er mwyn mynychu sefydliadau addysg uwch y tu allan i Wynedd. Dyma’r grŵp oed sydd hefyd yn fwyaf tebygol o fod yn symudol yn economaidd ac yn gymdeithasol, yn chwilio am addysg ond hefyd gwaith a chyfleoedd cymdeithasol eraill y tu allan i’r ardal.

At ei gilydd, mae mwy o bobl sy’n mudo i mewn yn y grŵp oed 15-29 nag o bobl sy’n mudo allan, sy’n arwain at dwf net yn y boblogaeth. Fel cyfartaledd deg mlynedd, mae’r cynnydd net tua 330 y flwyddyn.

Mae hwn yn batrwm gwahanol iawn i’r hyn a welir mewn ardaloedd cyfagos sydd heb sefydliadau addysg uwch, ble mae mudo allan ymhlith oedolion ifainc yn tueddu i fod yn uchel, ac nid yw pawb sy’n gadael yn eu harddegau hwyr neu eu hugeiniau cynnar yn dychwelyd i’r ardal, ac mae hyn yn pwysleisio proffil oed hŷn na’r cyfartaledd y boblogaeth yn yr ardaloedd hynny lawer mwy nag y mae yng Ngwynedd.

Mae llif mudwyr i mewn ac allan fwy neu lai yn cydbwyso’n gyfartal rhwng oed 0-15 a 30-49.

Ceir chwydd bychan mewn mudo i mewn yn y grwpiau oed cyn-ymddeol – y rheini sy’n 50 i 64 oed gyfwerth â thua 9% o bobl sy’n mudo i mewn. Yn y deg mlynedd diwethaf, mae mudo net yn y grŵp oed hwnnw wedi bod yn gynnydd blynyddol cyfartalog o 120 o bobl. Ar gyfartaledd, o 65 oed ymlaen, mae’r cydbwysedd tuag at fudo allan, ond yn ymylol felly.

**Noder:** Mae sawl ffactor yn effeithio ar fudo na allwn eu rheoli ar lefel leol, megis polisi economaidd cenedlaethol neu dueddiadau cymdeithasol tuag at ymddeol i fyw dramor. Gall digwyddiadau nas ragwelwyd neu rai unwaith ac am byth hefyd gael effaith sylweddol ar fudo, megis y llif o fudwyr economaidd o Ddwyrain Ewrop a welwyd yn sgil cytundeb yr UE yn 2004 neu'r gostyngiad mewn mudo mewnol a rhyngwladol ar ôl y dirywiad economaidd yn 2008. Felly, rhaid bod yn ofalus wrth geisio dehongli tueddiadau mewn mudo.

## Yr hyn y mae’r rhagamcanion yn ei ddangos

Roedd y rhagamcanion poblogaeth, er eu bod yn dechrau ar fan uwch na’r rhagamcanion yn seiliedig ar 2008, yn dangos patrwm tebyg ar gyfer poblogaeth y dyfodol. Disgwylir i dwf yn y boblogaeth barhau ar gyflymder cyson drwy gydol cyfnod y rhagamcanion ar gyfer yr holl senarios, ond mae cyfradd y twf ar gyfer rhagamcanion yn seiliedig ar 2011 yn uwch nag ar gyfer y rhagamcanion yn seiliedig ar 2008.

Y cyfansymiau mudo uwch a ddefnyddiwyd yn y rhagamcanion yn seiliedig ar 2011 yw prif yrwyr hyn – y rhagamcaniad tuedd mudo deg mlynedd sydd â’r gyfradd twf

uchaf – ond mae rhai newidiadau i strwythur y boblogaeth (ac felly newidiadau i gyfraddau ffrwythlondeb a marwoldeb) hefyd yn rhan o’r rheswm am y twf.

Mae’r tabl isod yn dangos y gwahaniaethau rhwng y rhagamcanion yn seiliedig ar 2011 a’r rhagamcan swyddogol yn seiliedig ar 2008. Mae’n cymharu ar draws cyfnod 15 mlynedd, sef hyd gweithrediad y rhan fwyaf o gynlluniau datblygu.

## Tabl 2: gwahaniaethau rhwng rhagamcanion aelwydydd yn seiliedig ar 2008 a 2011 ar gyfer Gwynedd


Ffynonellau: Rhagamcanion aelwydydd yn seiliedig ar 2011 a 2008, Llywodraeth Cymru

| | Rhagamcanion aelwydydd LlC yn seiliedig ar 2011 | | Tuedd mudo pum mlynedd LlC yn seiliedig ar 2008 |
|---|---|---|---|
| | Prif (tuedd mudo pum mlynedd) | Tuedd mudo deg mlynedd | |
| **Nifer yr aelwydydd** | | | |
| 2011 (blwyddyn sylfaen) | 52,411 | 52,411 | 52,967 |
| 2026 (cyfnod 15 mlynedd) | 56,711 | 57,336 | 58,500 |
| Newid 2011-26 (nifer) | 4,300 | 4,925 | 5,533 |
| Newid 2011-26 (%) | 8.2% | 9.4% | 10.4% |
| **Maint aelwydydd** | | | |
| 2011 (blwyddyn sylfaen) | 2.248 | 2.248 | 2.192 |
| 2026 (cyfnod 15 mlynedd) | 2.176 | 2.169 | 2.063 |
| Newid 2011-26 (nifer) | -0.073 | -0.080 | -0.129 |
| Newid 2011-26 (%) | -3.2% | -3.5% | -5.9% |
| **Effeithiau posib ar anheddau** | | | |
| Newid 2011-26 (nifer) | 5,004 | 5,732 | 6,383 |
| Newid 2011-26 (%) | 8.2% | 9.4% | 10.4% |
| **Rhagdybiaeth mudo** | | | |
| Mudo net blynyddol (pobl) | 387 | 458 | 251 |

Dros y cyfnod hwn (2011 i 2026) disgwylir i’r twf mewn niferoedd aelwydydd ac effaith y twf hwn ar anheddau fod yn is nag a ragfynegwyd mewn rhagamcanion blaenorol – rhagfynegwyd twf o 10.4% yn 2008, ond mae rhagamcanion yn seiliedig ar 2011 yn awgrymu twf o ddim ond 8.2% ar gyfer y prif rhagamcaniad (tuedd mudo pum mlynedd) a thwf o ddim ond 9.4% ar gyfer yr amrywiolyn tuedd mudo deg mlynedd. Golyga hyn bod y gofyn mynegol am anheddau ar gyfer y cyfnod 15 mlynedd yn disgyn yn sylweddol o gyfanswm o 6,380 yn 2008 i naill ai 5,000 (tuedd mudo pum mlynedd) neu 5,730 (tuedd mudo deg mlynedd) yn y rhagamcanion yn seiliedig ar 2011.

**Siart 2: cymharu rhagamcanion poblogaeth Gwynedd**

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn, ONS; rhagamcanion aelwydydd yn seiliedig ar 2011 a 2008, Llywodraeth Cymru




## Esbonio’r gwahaniaeth

### Ailseilio’r amcangyfrifon poblogaeth

Y ffactor mwyaf wrth esbonio’r gwahaniaeth rhwng y rhagamcanion yn seiliedig ar 2008 a 2011 yw ailgalibro’r holl ddata wedi i ganlyniadau Cyfrifiad 2011 gael eu cyhoeddi. Roedd y rhagamcanion blaenorol yn dibynnu ar y newidiadau a welwyd rhwng Cyfrifiadau 1991 a 2001 er mwyn gosod eu rhagdybiaethau ynghylch cyfraddau twf aelwydydd.

Yn benodol, yn sgil Cyfrifiad 2011 ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2011, cawsom sail poblogaeth newydd ar gyfer rhagfynegi twf poblogaeth yn y dyfodol. Er mwyn cynhyrchu rhagamcanion poblogaeth, roedd gofyn i ni wybod sut wnaeth y boblogaeth newid bob blwyddyn rhwng 2001 a 2011. Roedd gofyn i ni wybod pa ran o dwf poblogaeth ddaeth o newid naturiol (genedigaethau a marwolaethau) a pha ran ddaeth o fudo.

Rhwng Cyfrifiadau 2001 a 2011, newidiodd tueddiadau a oedd wedi bod yn gymharol sefydlog ers sawl degawd. Dengys data newydd o Gyfrifiad 2011 fod twf y boblogaeth yng Ngwynedd yn uwch (+1.9%) na’r disgwyl a thwf aelwydydd yn is (-1.1%) na’r disgwyl. (Ffigyrau Cymru – poblogaeth +0.9%, aelwydydd -2.5%). Roedd y gwahaniaeth hyd yn oed yn fwy ar gyfer rhai grwpiau oed a mathau o aelwydydd o fewn y boblogaeth.

Yn sgil dadansoddi'r data newydd o'r Cyfrifiad, roedd posib i ddemograffwyr o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac o fewn Llywodraeth Cymru:

- gynhyrchu cyfraddau ffrwythlondeb a marwoldeb yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth sydd wedi'u cywiro, fel y gallwn wneud rhagfynegiadau gwell ynghylch genedigaethau a marwolaethau'r dyfodol. Mae'r cyfraddau wedi newid yn sylweddol gan eu bod yn cael eu cyfrifo yn erbyn sail poblogaeth wahanol iawn. Yn benodol, mae cyfraddau ffrwythlondeb yn helpu i ragfynegi faint o blant fydd yn cael eu geni yn y dyfodol, ac os yw'r rhain yn anghywir gall cyfres o ragamcanion ragfynegi'r boblogaeth yn y grwpiau oed iau yn sylweddol rhy isel neu rhy uchel.
- edrych ar dueddiadau mudo (cyfansymiau ac yn ôl oed/rhyw) i benderfynu pa ragdybiaethau i'w gwneud ynghylch tueddiadau mudo'r dyfodol. Fe wnaeth cyfansymiau mudo a strwythur oed y proffil mudwyr newid yn sylweddol, gan mai cam-amcangyfrif mudo oedd un o'r prif resymau am y diffyg cydweddu rhwng Cyfrifiad 2011 a'r hen amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn a roliwyd ymlaen. Os ydym yn defnyddio'r data mudo anghywir yn y model rhagamcanion, bydd lefelau twf wedi'u hystumio'n fawr.

Fe wnaeth y rhain a dadansoddiadau eraill arwain at ailgalibro'r holl ddata a ddefnyddiwyd i gynhyrchu amcangyfrifon a rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd. Ynghyd â chyfraddau ffrwythlondeb/marwoldeb a thueddiadau mudo, adolygwyd y ffigyrau cyfansoddiad aelwydydd a phoblogaeth sefydliadol hefyd. Roedd rhai elfennau o newid yn fwy arwyddocaol nag eraill i Wynedd – yn benodol newidiadau i dueddiadau mudo a newidiadau i faint cyfartalog aelwydydd – ac ymchwilir i'r rhain yn fanylach isod.

## Newidiadau mudo

Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhagamcanion yn seiliedig ar 2008 a 2011 yn rhannol oherwydd newidiadau i elfen poblogaeth y rhagamcanion aelwydydd, yn benodol tueddiadau mudo gwahanol. Mae mudo yn gydran gyfnewidiol iawn o newid poblogaeth a gall godi a gostwng yn sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. (Gweler y llinell waelod yn nhabl 2 uchod).


Ar gyfer y rhan fwyaf o Gymru, roedd y lefelau mudo yn uwch yn y duedd a ddefnyddiwyd ar gyfer y rhagamcanion yn seiliedig ar 2008. Fodd bynnag, nid dyma oedd yr achos i Wynedd ac felly, er bod y gwahaniaethau mewn lefelau mudo yn allweddol wrth esbonio'r lefelau poblogaeth uwch, maent yn cael llai o effaith wrth esbonio'r gwahaniaethau rhwng *rhagamcanion aelwydydd* hen a newydd Llywodraeth Cymru nag mewn ardaloedd awdurdodau unedol eraill. (Er bod twf y boblogaeth yn uwch yn y rhagamcanion yn seiliedig ar 2011, mae'r twf mewn aelwydydd yn is.)

Er mai prif bwrpas y papur hwn yw'r gwahaniaethau yn y ffigyrau rhagamcanion aelwydydd, mae'n werth archwilio'r gwahaniaethau mewn lefelau mudo, gan y bydd dealltwriaeth o natur gyfnewidiol data tueddiadau mudo yn ein helpu ni i ddeall rhagamcanion y dyfodol. Ac eithrio'r achos unwaith mewn degawd o ddata Cyfrifiad yn cael ei ailseilio, mae'n debyg mai gwahaniaethau mewn tueddiadau mudo fydd prif yrwyr newid mewn unrhyw ragamcanion poblogaeth ac aelwydydd y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cynhyrchu yn y dyfodol.

Cymerodd y rhagamcanion yn seiliedig ar 2008 duedd o 2003/04 a oedd, ac eithrio’r flwyddyn gyntaf, yn gyfnod o fudo net arbennig o isel i Wynedd. Y ffigwr mudo blynyddol cyfartalog ar gyfer y cyfnod pum mlynedd, fel a ddefnyddiwyd yn y rhagamcanion, oedd +251*.

### Siart 3: mudo net blynyddol i Wynedd, yn dangos y cyfnodau tuedd a ddefnyddiwyd yn rhagamcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru

Ffynonellau: Rhagamcanion aelwydydd yn seiliedig ar 2011 a 2008, Llywodraeth Cymru




Mae’r prif ragamcaniad newydd yn seiliedig ar 2011 yn seiliedig ar duedd mudo pum mlynedd ac yn edrych ar y cyfnod o 2006/07 i 2010/11. Y ffigwr mudo blynyddol cyfartalog ar gyfer y cyfnod pum mlynedd oedd +387.

Cymerodd y rhagamcan tuedd deg mlynedd yn seiliedig ar 2011 gyfnod hwy, a wnaeth y natur amrywiol a welwyd dros y cyfnodau byrrach yn fwy cyfartal. Y ffigwr mudo blynyddol cyfartalog a gyfer y cyfnod deg mlynedd oedd +458.

Mae’r ffigyrau hyn yn dangos sut all mudo net cyfartalog blynyddol ar gyfer unrhyw gyfnod a ddewisir amrywio – mae gwahaniaeth sylweddol (tua 200 o fudwyr y flwyddyn) rhwng y duedd uchaf a’r isaf a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru, a gall hyn gael effaith fawr ar y canfyddiad o barhad y fethodoleg rhagamcanion dros amser. Yn gyffredinol, mae cyfnod tuedd hwy yn fwy sefydlog, ond mae hi bron yn amhosib rhagfynegi tueddiadau mudo’r dyfodol yn gywir. Gyrrir mudo gan nifer o bethau y tu allan i’n pwerau i reoli neu ragweld (y dirywiad diweddar yn yr economi, ehangu’r UE, ffyniant, neu fel arall, y farchnad dai).

Mae natur gyfnewidiol elfen fudo newid poblogaeth yn amlygu cyfyngiadau defnyddio rhagamcanion yn seiliedig ar duedd ar wahân i ddata arall, ac yn enwedig defnyddio tueddiadau mudo ar gyfer un cyfnod sefydlog byr yn unig. Mae data mudo yn gydran allweddol o’r broses rhagamcanion, ond gall canlyniadau model rhagamcanion amrywio’n eang, yn ddibynnol ar y cyfnod tuedd a ddewisir.

***Noder:** Adolygwyd ffigyrau mudo wedi rhyddhau Cyfrifiad 2011, yn cynnwys y ffigyrau a ddefnyddiwyd yn y rhagamcanion newydd yn seiliedig ar 2011. Pe byddai'r data diwygiedig hwn wedi'i ddefnyddio yn y rhagamcanion yn seiliedig ar 2008, +362 fyddai'r lefel mudo net).

Cafwyd hefyd peth mân addasiadau i'r cyfansymiau mudo a strwythur oed y boblogaeth o fudwyr ar ôl ailseilio'r amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn, a fydd wedi cael effaith ar ffrwythlondeb a marwoldeb (ac felly cyfansymiau poblogaeth y dyfodol). Fodd bynnag, mae rôl llawer llai i'r newidiadau hyn wrth esbonio'r gwahaniaethau rhwng y rhagamcanion yn seiliedig ar 2008 a 2011 na dewis y cyfnod tuedd.

## Maint aelwydydd


Daeth yr effaith fwyaf o ddata'r Cyfriiad a oedd wedi'i ailgalibro o'r gwahaniaeth rhwng maint aelwydydd a ragfynegwyd a'r hyn a welwyd yn 2011.

Mae cyfradd y newid mewn maint cyfartalog aelwydydd wedi bod yn disgyn ers dechrau cadw cofnodion. Fodd bynnag, wedi sawl degawd o ostyngiad llinellol fwy neu lai, rhwng 2001 a 2011 fe wnaeth cyflymder y duedd am i lawr arafu'n sylweddol. Golyga hyn bod llai o aelwydydd wedi'u ffurfio nag a ragfynegwyd gan ragamcanion 2008 – hynny yw, roedd maint cyfartalog aelwydydd yn fwy na'r disgwyl, felly roedd llai o aelwydydd yn ffurfio nag a ragwelwyd o dueddiadau'r gorffennol.

Mae'r siart isod yn dangos maint y newid yn y duedd linellol yr oedd y rhagamcanion yn seiliedig ar 2008 wedi'i pharhau. Mae data 2011 yn dangos bod cyfradd y newid yn amlwg yn arafu.

### Siart 4: newid mewn maint cyfartalog aelwydydd yng Ngwynedd, 1971-2011

Ffynonellau: Cyfrifiad poblogaeth; rhagamcanion aelwydydd yn seiliedig ar 2008, Llywodraeth Cynulliad Cymru



Mae newidiadau mewn lefelau poblogaeth sefydliadol hefyd yn esbonio rhai o’r gwahaniaethau yn y rhagamcanion. Er mai cyfradd fechan o'r boblogaeth gyffredinol ydyw, roedd nifer y bobl mewn sefydliadau cymunedol yn 2011 30% yn uwch nag yn 2001, sy’n cael effaith ar y nifer o bobl sydd ar gael i ffurfio aelwydydd. Roedd y duedd flaenorol tuag at ostyngiad yn y boblogaeth sefydliadol. Yng Ngwynedd, fel ag yng Nghymru ben baladr, mae’r twf yn bennaf yn sgil y cynnydd yn y boblogaeth fyfyrwyr sy’n byw mewn neuaddau preswyl.

## Beth achosodd y newid sylfaenol mewn tueddiadau maint aelwydydd?

Roedd cyfradd twf aelwydydd llai yn arafach nag a ragfynegwyd mewn rhagamcanion blaenorol. Mae hyn oherwydd bod:

**Llai o bobl ifainc nag a ragfynegwyd yn gadael cartref y teulu ac yn ffurfio’u haelwydydd eu hunain.** Yn aml, mae hyn oherwydd na allant fforddio gwneud hynny, gan fod prisiau tai (i’w prynu a’u rhentu) wedi cynyddu gymaint dros y 10-15 mlynedd diwethaf. Mae mwy o’r bobl ifainc sydd yn gadael cartref eu rhieni yn rhannu gydag oedolion eraill nad ydynt yn perthyn iddynt yn hytrach na sefydlu eu cartrefi eu hunain.

**Llai o bobl nag a ragamcanwyd yn byw ar eu pennau eu hunain neu mewn aelwydydd bach yn sgil teuluoedd yn gwahanu.** Maen nhw naill ai’n rhannu gydag oedolion eraill nad ydynt yn perthyn iddynt, neu’n symud yn ôl i gartref eu rhieni. O ganlyniad, roedd cyfraddau twf mewn aelwydydd un person ac aelwydydd rhiant sengl yn llawer llai rhwng 2001 a 2011 na rhwng 1991 a 2001.

**Cyfraddau marwolaeth i ddynion wedi lleihau.** Disgwylid i lawer o’r twf mewn aelwydydd person sengl ddod o dwf mewn menywod hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain ar ôl marwolaeth eu partneriaid. Gan fod dynion yn byw’n hirach, mae niferoedd yr aelwydydd sydd wedi’u ffurfio o fenywod sengl hŷn ar eu pennau eu hunain yn llai nag a ragfynegwyd.

Yn gyffredinol, mae cyfanswm nifer yr aelwydydd o 5+ o bobl yn parhau i ostwng, ond ar gyfradd arafach nag a ragfynegwyd yn flaenorol. Mae hyn oherwydd bod:

**Mwy o aelwydydd ble mae plant sy’n oedolion yn byw gyda’u rhieni.** Mae hyn ar gyfer plant sydd erioed wedi gadael cartref/sydd wedi dychwelyd i gartref y teulu ar ôl addysg uwch, ac oedolion sy’n symud yn ôl i mewn at eu rhieni ar ôl tor-perthynas, gan na allant fforddio sefydlu eu cartref eu hunain. Nis gwyddir a yw hyn yn duedd barhaus, ynteu’n ganlyniad dros dro i ffactorau economaidd (megis y cynnydd sylweddol mewn prisiau tai a welwyd dros y degawd diwethaf a dirywiad economaidd 2007/08).

**Mwy o aelwydydd o oedolion nad ydynt yn perthyn.** Yng Ngwynedd, mae’r rhain yn bennaf yn aelwydydd o oedolion ifainc, yn cynnwys aelwydydd o fyfyrwyr. Mewn ardaloedd ble cafwyd lefel uchel o fudo i mewn rhyngwladol, gall y cynnydd mewn aelwydydd mawr hefyd fod oherwydd teuluoedd mwy mewn rhai grwpiau ethnig neu oherwydd bod mudwyr economaidd ifainc yn rhannu cartrefi; fodd bynnag, nid yw hon yn duedd sydd wedi cael effaith sylweddol yng Ngwynedd.

## Cymysgedd tai – tueddiadau'r dyfodol

Mae'r siart isod yn dangos y gwahaniaethau rhwng gwneuthuriad cyfredol aelwydydd yn ôl maint a'r gymysgedd a ragfynegir yn 2026. Er bod yr hen ragamcanion a'r rhai newydd yn dangos cyfran uwch o aelwydydd llai erbyn 2026 a gostyngiad mewn aelwydydd mawr, fe wnaeth y rhagamcanion yn seiliedig ar 2008 sydd bellach wedi'u disodli, ragfynegi twf cyflymach ar gyfer aelwydydd llai a gostyngiad mwy ar gyfer aelwydydd mawr.

Fodd bynnag, yn gyffredinol mae'r duedd yn parhau tuag at fwy o aelwydydd bach a llai o aelwydydd mawr yn y dyfodol, ond mae'r twf ar raddfa arafach nag a ragfynegwyd yn y gorffennol.

Er gwaetha'r arafu mewn cyfraddau twf, disgwylir i aelwydydd bach gyfrif am y rhan fwyaf o gynnydd y dyfodol mewn niferoedd aelwydydd, yn enwedig mewn aelwydydd un person, aelwydydd sydd wedi'u ffurfio o ddau o bobl heb blant, ac aelwydydd rhiant sengl. Disgwylir i nifer a chyfran yr aelwydydd gyda thri neu bedwar o bobl ddisgyn, ond bydd nifer yr aelwydydd mawr (5+ o bobl) gydag oedolion yn unig ynddynt – er enghraifft, aelwydydd myfyrwyr neu blant sy'n oedolion yn byw gyda'u rhieni – yn cynyddu ychydig.

### Siart 5: cymysgedd tai, 2011 a 2026

Ffynonellau: Rhagamcanion aelwydydd yn seiliedig ar 2011 a 2008, Llywodraeth Cymru

